



Cronfa Cymunedau'r Arfordir



Coastal Communities Fund



Cyflwynir gan y Gronfa Loteri Fawr ar
ran Llywodraethau'r DU a Chymru

Rownd pump

nodiadau arweiniad Cymru

Rhan un: Trosolwg o Gronfa Cymunedau'r Arfordir	3
Canlyniad y rhaglen	3
Rhan dau: Cymhwysedd	4
Beth mae cymunedau'r arfordir yn ei olygu?	4
Pwy all ymgeisio?	4
Ceisiadau partneriaeth	4
Pa mor ddatblygedig y mae angen i brosiectau fod?	4
Rhan tri: Blaenoriaethau ariannu	5
Yng Nghymru	5
Egwyddorion ariannu	5
Enghreifftiau o brosiectau CCA	6
Rhan pedwar: Faint gallaf ymgeisio amdano?	6
Ni ellir defnyddio arian CCA i dalu am y canlynol	6
Cymorth Gwladwriaethol	6
Rhan pump: Ymgeisio, asesu a gwneud penderfyniadau	8
Proses ymgeisio dau gam	8
Gwybodaeth allweddol ofynnol	8
Asesu	9
Gwneud penderfyniadau	9
Rhan chwech: Arweiniad manwl ar gyfer prosiectau cyfalaf	10
Tir ac adeiladau	10
Amserlenni cyfalaf	10
Rhan saith: Beth yw'r amserlenni?	11
Rhan wyth: Manylion cyswllt	12

Rhan un: Trosolwg o Gronfa Cymunedau'r Arfordir

Yn 2012 cyflwynodd Llywodraeth y Deyrnas Unedig a Llywodraeth Cymru **Gronfa Cymunedau'r Arfordir** (CCA) i gefnogi prosiectau datblygu economaidd mewn ardaloedd arfordirol ledled y Deyrnas Unedig.

Rownd pump

Bydd tua £3.4 miliwn ar gael ar gyfer CCA Rownd pump yng Nghymru i ariannu cynigion sy'n ymdrin â heriau economaidd unigryw ardaloedd arfordirol.

Mae dyfarniadau ariannu rhwng £50,000 a £300,000 ar gael yng Nghymru i ystod helaeth o fudiadau a busnesau a fydd yn creu buddion ar gyfer cymunedau arfordirol.

Canlyniad y rhaglen

Amcan CCA yw cefnogi datblygiad economaidd cymunedau arfordirol trwy hyrwyddo twf economaidd a swyddi cynaliadwy er mwyn i bobl fedru ymateb yn well i anghenion a chyfleoedd economaidd newidiol eu hardal. Disgwylir i'r holl brosiectau a ariennir trwy CCA gyflwyno'r canlyniad a ganlyn:

- ▶ bydd cymunedau arfordirol yn profi **adfywio** a **thwf economaidd** trwy brosiectau sy'n **creu swyddi cynaliadwy yn uniongyrchol** neu'n **anuniongyrchol** ac yn **diogelu swyddi presennol**.

Gweler yr arweiniad ar fesur canlyniadau economaidd ar y **wefan CCA** ar gyfer diffiniadau creu swyddi a manylion y fframwaith dangosyddion a ddefnyddir i fonitro canlyniadau.

Rhan dau: Cymhwysedd

Beth mae cymunedau'r arfordir yn ei olygu?

At ddibenion CCA, y diffiniad o gymuned arfordirol yw:

- ▶ Unrhyw aneddiad arfordirol o fewn ardal awdurdod lleol y mae ei ffiniau yn cynnwys blaendraeth y DU, gan gynnwys awdurdodau lleol y mae eu ffiniau yn cynnwys blaendraeth morydol yn unig.

Rydym yn cadw'r hawl i wneud penderfyniadau terfynol ar gymhwyster, gan ymgynghori, pan fo'n briodol, gydag adrannau llywodraeth perthnasol a chyrrff arbenigol eraill. Os nad ydych yn siŵr p'un a yw eich ardal yn gymwys ai beidio, gweler **Rhan wyth** i gael manylion sut i gysylltu â ni.

Pwy all ymgeisio?

Croesewir ceisiadau gan fudiadau sydd wedi'u lleoli mewn cymunedau arfordirol neu y mae gan eu gwasanaethau gyswllt clir ac economïau arfordirol lleol.

Gall y mathau canlynol o fudiadau ymgeisio yng Nghymru:

- Cwmnïau sector preifat
- Awdurdodau lleol
- Cyrff sector cyhoeddus eraill
- Elusennau
- Mudiadau'r sector gwirfoddol a chymunedol
- Mentrau cymdeithasol, gan gynnwys cydweithfeydd a mentrau sy'n eiddo i'r gymuned
- Asiantaethau datblygu

Rydym yn annog ymgeiswyr heb gyfansoddiad i fynd yn fudiadau sydd â chyfansoddiad ffurfiol i liniaru'r risg o atebolrwydd unigol.

Mae'n rhaid bod gan ymgeiswyr o leiaf dau aelod nad ydynt yn perthyn i'w gilydd ar eu corff llywodraethu, pwyllgor rheoli neu fwrdd cyfarwyddwyr.

Nid oes cyfyngiad ar y nifer o geisiadau gan unrhyw gymuned arfordirol benodol, fodd bynnag **gall mudiad ymgeisio am un prosiect yn unig ym mhob rownd ariannu.**

Mae prosiectau sy'n cynnwys gweithgareddau mewn mwy nag un cymuned arfordirol yn gymwys i ymgeisio.

Ceisiadau partneriaeth

Rydym yn croesawu ceisiadau gan bartneriaethau traws-sector cryf. Dylai mudiad arweiniol gyflwyno'r cais ar ran y bartneriaeth a bod yn atebol am gyflwyno'r prosiect a'r ariannu.

Pa mor ddatblygedig y mae angen i brosiectau fod?

Bydd angen i brosiectau yn Rownd pump fedru dangos eu gallu i wario arian CCA yn llawn erbyn 31 Mawrth 2021.

Darllenwch **Rhan pump: Ymgeisio, asesu a gwneud penderfyniadau yr arweiniad hwn**, a **Rhan saith: Beth yw'r amserlen?** am wybodaeth fanwl.

Rhan tri: Blaenoriaethau ariannu

Mae CCA wedi'i ddylunio i gefnogi datblygiad economaidd cymunedau arfordirol trwy hyrwyddo twf economaidd a swyddi cynaliadwy er mwyn i bobl fedru ymateb yn well i anghenion a chyfleoedd economaidd newidiol eu hardal.

Mae'n rhaid i ymgeiswyr ddangos bod eu cynnig yn gweddu i flaenoriaethau economaidd cyffredinol yr ardal leol, gan gysylltu pryd bynnag y bo'n bosib â gweledigaeth economaidd ehangach.

Rydym yn fwy tebygol o ariannu prosiectau a all ddangos cyswllt cryf â'r economi leol ac sy'n cydweddu â'r hyn y mae eraill yn ei wneud yn yr ardal.

Yng Nghymru:

Dim ond ceisiadau sy'n ymdrin ag un neu fwy o'r tair thema isod a gaiff eu hystyried:

1. **PROFI** – Ar gyfer ymgeiswyr sydd am ddechrau neu symud i faes gweithgarwch neu fusnes newydd, a fydd yn creu swyddi newydd.
2. **TYFU** – Ar gyfer ymgeiswyr sydd ag uchelgais i ehangu cyflwyniad gweithgareddau neu fusnesau presennol, a fydd yn cynnal neu'n creu swyddi. Gellir cyflawni hyn trwy naill ai:
 - a. gyflwyno **mwly**
 - b. mynd i ardal ddaearyddol newydd neu **ehangach**, neu
 - c. gyflawni gweithgareddau i fod yn **well**, mwy effeithlon a chyflwyno buddion go iawn i fusnesau eraill, yr economi neu gymuned ehangach.
3. **NEWID** – ar gyfer ymgeiswyr sydd eisiau arloesi neu wella'u model busnes neu strwythur sefydliadol, er mwyn cynhyrchu mwy o weithgarwch a chynnal neu greu swyddi.

Egwyddorion ariannu

Rydym yn awyddus i ariannu prosiectau y bydd pobl a busnesau lleol yn elwa ohonynt ac sy'n manteisio i'r eithaf ar sgiliau a phrofiad pobl ac asedau o fewn cymuned arfordirol.

Rydym yn disgwyl i brosiectau fod yn gynaliadwy yn amgylcheddol ac i ddangos hyn yn eu dulliau creu swyddi a thwf economaidd. Gweler y dolenni gwe a ganlyn am arweiniad ar arfer gorau: [Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol \(Cymru\)](#), a [New Economics Foundation Blue New Deal](#).

Ni ddylai prosiectau ofyn am gyllid CCA os yw ffrwd ariannu bresennol neu fwy priodol yn bodoli y mae ymgeiswyr yn gymwys i ymgeisio iddi.

Enghreifftiau o brosiectau CCA

Am enghreifftiau o geisiadau prosiect llwyddiannus, cyfeiriwch at broffiliau prosiect dyfarniadau blaenorol ac i Adroddiadau Cynnydd Blynyddol Cronfa Cymunedau'r Arfordir sydd ar gael ar ein [gwefan](#). Er nad yw'r rhain yn arwydd o beth fydd yn llwyddiannus yn Rownd pump, mae'n bosib y byddant yn rhoi mewnwelediad i chi ar gynllunio a strwythuro cais llwyddiannus.

Rhan pedwar: Faint gallaf ymgeisio amdano?

Er yr anogir ariannu o ffynonellau eraill, nid yw'n hanfodol a gall CCA fod yn unig ariannwr eich prosiect. Dylai prosiectau sydd â chyllid o ffynonellau eraill sicrhau nad yw trefniadau ariannu'n effeithio ar y gallu i gyflwyno'r prosiect o fewn yr amserlen CCA. Mae'n rhaid i'r holl ffynonellau ariannu eraill fod mewn lle erbyn y terfyn amser CCA cam dau, gweler [Rhan saith: Beth yw'r amserlenni?](#) i weld beth yw'r rhain

Mae'n rhaid i brosiectau fedru dechrau o fewn chwe mis ar ôl dyfarniad ariannu ac mae'n rhaid gwario'r arian erbyn mis Mawrth 2021. Bydd angen i unrhyw wariant y tu hwnt i'r dyddiad hwn gael ei dalu gan ddeiliaid grantiau o ffynonellau eraill.

Mae arian ar gael ar gyfer costau cyfalaf a refeniw. Yn gyffredinol gellir ei ddefnyddio i dalu am:

- gyflogau sy'n cyfrannu at gyflwyno'r canlyniad CCA
- cyflwyno prosiectau
- costau cyfreithiol (gan gynnwys cyngor ar gymorth gwladwriaethol i sicrhau cydymffurfio â'r grant)
- hyfforddiant a datblygu sgiliau
- treuliau teithio
- treuliau gwirfoddolwyr
- rhentu adeiladau, gosodiadau a ffitiadau
- monitro a gwerthuso
- cyfran o gostau cyffredinol sy'n ymwneud yn uniongyrchol â chyflwyno'r prosiect (gweler ein [harweiniad adennill costau llawn](#))
- tir ac adeiladau (gallai'r rhain gynnwys prynu neu lesio tir, adeiladu, gwaith adeiladu, adnewyddu, costau arolwg a ffioedd proffesiynol cysylltiedig)
- cyfarpar neu gerbydau

Ni ellir defnyddio arian CCA i dalu am y canlynol

- costau sydd wedi'u gwario cyn i gynnig ariannu gael ei wneud
- astudiaethau dichonoldeb
- eitemau nad oes eu hangen yn uniongyrchol i gyflwyno'r gwaith arfaethedig
- teithio y tu allan i'r Deyrnas Unedig
- arian ar gyfer cronfa wrth gefn neu warged, p'un ai i'w dosbarthu neu beidio
- ad-daliadau benthyciad
- cyfraniadau at apelïadau cyffredinol
- gweithgareddau gwleidyddol neu grefyddol
- gweithgareddau y mae'r llywodraeth yn gyfrifol amdanynt
- aildosbarthu ariannu (megis defnyddio rhan o grant CCA i redeg cynllun grantiau cymunedol neu ddarparu grantiau i fusnesau lleol).

Cymorth Gwladwriaethol

Mae Cymorth Gwladwriaethol yn derm cyfreithiol penodol yn deillio o gyfamod yr Undeb Ewropeaidd, yn disgrifio cymorth ariannol i fudiadau sy'n cyflawni gweithgarwch economaidd (p'un ai er elw ai beidio), a allai ystumio cystadleuaeth.

Os gallai ein hariannu roi mantais i chi dros fudiadau eraill sy'n cynnig nwyddau neu wasanaethau tebyg, neu os gallai'r gweithgareddau rydych am i ni eu hariannu effeithio ar fasnachu rhwng aelod-wladwriaethau'r UE, yna gellir ystyried bod ein hariannu'n gyfystyr â 'Chymorth Gwladwriaethol'.

Mynnwn fod ymgeiswyr yn hunanwerthuso sut mae eu prosiect yn cydymffurfio â rheolau Cymorth Gwladwriaethol Ewropeaidd, gan geisio cyngor cyfreithiol arbenigol os oes angen. Bydd hyn yn cael ei adolygu fel rhan o'n proses asesu. Cyn gwneud unrhyw gynnig ariannu, byddwn yn mynnu y cytunir ar sefyllfa Cymorth Gwladwriaethol gyda ni sy'n gymwys o dan Gyfraith yr UE.

Mae prosiectau sy'n cynnwys elfennau masnachol, megis masnachu nwyddau neu wasanaethau ar farchnad agored, yn llawer mwy tebygol o gael eu hystyried yn Gymorth Gwladwriaethol. Os oes gan eich prosiect arfaethedig elfennau masnachol, fe'ch cyngorir yn gryf i ystyried sut y byddwch yn cydymffurfio â rheolau Cymorth Gwladwriaethol yr UE.

Mae rheolau Cymorth Gwladwriaethol i ddiogelu cystadleuaeth yn y sectorau pysgodfeydd, acwafeithrin ac amaeth yn arbennig o lym. Dim ond y prosiectau hynny nad ydynt yn cyfleu unrhyw fantais economaidd dewisol y gellir eu hystyried yn y sectorau hyn (megis mesurau cadwraeth nad ydynt o fudd uniongyrchol i fusnes penodol megis deorfa gimychiaid sy'n ceisio sefydlogi neu dyfu stociau pysgodfeydd.)

Os ydych wedi derbyn unrhyw ariannu yn ystod y tair blynedd ddiwethaf y gellir ei ddsbarthu'n Gymorth Gwladwriaethol 'de minimis', mae'n rhaid i chi ddatgan hyn pan fyddwch yn ymgeisio i CCA a gallai fod angen i unrhyw gynnig ariannu gael ei addasu'n unol â hynny.

Rhan pump: Ymgeisio, asesu a gwneud penderfyniadau

Dim ond un cais a gaiff ei dderbyn fesul mudiad. Ni fydd unrhyw gais sy'n anghyflawn erbyn y terfyn amser ymgeisio'n cael ei asesu.

Proses ymgeisio dau gam

Mae **Cam un** yn fynegiad o ddiddordeb, a chan ddilyn hynny byddwn yn adnabod prosiectau sy'n cyfateb yn gryf i ganlyniad y rhaglen a'r blaenoriaethau ar gyfer Cymru. Bwriedir i Gam un sicrhau bod gan y sawl sy'n gwneud penderfyniadau ddigon o wybodaeth yn sgil y cam hwnnw i ddethol a dewis y cynigion y byddent am wahodd cais cam dau ganddynt.

Fel rhan o'r broses asesu, mae'n bosib y byddwn yn gofyn i ymgeiswyr gyflwyno mwy o wybodaeth. Gall hyn fod wyneb wrth wyneb neu dros y ffôn.

Mae **Cam dau** trwy wahoddiad yn unig ac yn ymwneud â chwblhau **ffurflen gais** lawn a darparu gwybodaeth gefnogol berthnasol, a allai gynnwys cynllun busnes sydd eisoes yn bodoli. Ar gyfer prosiectau sy'n cynnwys tir ac adeiladau, mae angen gwybodaeth ychwanegol sylweddol. Gweler **Rhan chwech: Arweiniad manwl ar gyfer prosiectau cyfalaf**.

Rydym yn disgwyl gwahodd mwy o brosiectau i gyflwyno cais Cam dau nag y gallwn eu hariannu. Cafwyd galw uchel iawn am grantiau Cymunedau'r Arfordir ym mhedair rownd gyntaf y rhaglen. Disgwylir yr un lefel uchel o ddiddordeb yn Rownd pump.

Gwybodaeth allweddol ofynnol

I roi hyder y bydd y prosiectau hyn yn gallu cyflwyno o fewn yr amserlenni CCA, bydd angen yr wybodaeth a ganlyn.

- Disgwylir i brosiectau cyfalaf sy'n cynnwys tir ac adeiladau gael eu **datblygu'n unol â RIBA Cam Gwaith 4 gyda phob caniatâd a theitl** wedi'u sicrhau erbyn y terfyn amser ymgeisio cam dau. Esbonnir hyn yn fanylach yn **Rhan chwech: Arweiniad manwl ar gyfer prosiectau cyfalaf**.
- Mae'n rhaid i brosiectau sy'n cynnwys arian o ffynonellau eraill fedru darparu tystiolaeth bod yr **holl ariannu arall wedi'i sicrhau erbyn** y terfyn amser ymgeisio cam dau.
- Dylai pob prosiect fod wedi ystyried ei **sefyllfa Cymorth Gwladwriaethol**, sy'n gymwys o dan gyfraith yr UE, erbyn y terfyn amser ymgeisio cam dau.
- Erbyn y terfyn amser ymgeisio cam dau rydym yn disgwyl, lle bo'n briodol, bod **cytundebau partneriaeth** wedi'u rhoi mewn lle sy'n amlinellu rolau a chyfrifoldebau pob un o'r partneriaid.

Asesu

Yng ngham un a cham dau, y meini prawf gwneud penderfyniadau allweddol fydd:

- p'un a fydd y prosiect yn creu swyddi a/neu'n cynnal swyddi presennol yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol, ac yn hyrwyddo twf economaidd
- p'un a yw'r cyfle marchnad am y prosiect wedi cael ei ddangos yn glir
- pa mor dda y mae'r prosiect yn bodloni gofynion a blaenoriaethau ariannu CCA
- pa mor dda y mae'r prosiect yn cysylltu â'r economi leol ac yn creu buddion ar gyfer y gymuned leol
- pa mor debygol yw hi y bydd prosiect yn cyflwyno ei ganlyniadau arfaethedig yn llwyddiannus
- sut y bydd buddion y prosiect yn cael eu cynnal ar ôl i'r grant CCA ddod i ben
- p'un a yw'r dull o greu swyddi a thwf yn gynaliadwy yn amgylcheddol
- p'un a yw'r prosiect yn cynrychioli gwerth cymharol dda am arian
- p'un a ellir cyflwyno'r prosiect yn llwyddiannus a hawlio'r holl grant o fewn yr amserlen CCA.

Bydd ein hasesiad yn seiliedig ar y dystiolaeth a ddarparwch yn eich cais, ac ar y pwyntiau barnu uchod.

Gwneud penderfyniadau

Asesir ceisiadau gan y Gronfa Loteri Fawr a gwneir argymhellion i'r paneli Penderfyniadau CCA ym mhob gwlad. Mae'n bosib y byddwn yn derbyn cyngor gan gyrff eraill y llywodraeth wrth wneud penderfyniadau ariannu.

Yng Nghymru, mae'r panel penderfyniadau CCA yn cynnwys dau aelod o Bwyllgor Cronfa Loteri Fawr Cymru, dau swyddog Llywodraeth Cymru ac aelodau a recriwtir yn annibynnol. Mae'r Panel Penderfyniadau'n gwneud argymhellion sy'n cael eu cyflwyno i'r Gweinidog priodol yn Llywodraeth Cymru i gael eu cymeradwyo.

Mae cyllidebau CCA wedi'u pennu bob blwyddyn o refeniw morol Ystâd y Goron. Gan hynny, mae'r symiau a nodir yn y nodiadau arweiniad hyn yn ddangosol yn unig.

Os nad oes digon o brosiectau o safon i ymrwymo'r holl arian, gellir ystyried opsiynau eraill sy'n ymdrin â'r canlyniad CCA.

Rhan chwech: Arweiniad manwl ar gyfer prosiectau cyfalaf

Tir ac adeiladau

Rydym yn disgwyl y bydd prosiectau cyfalaf sy'n ymgeisio i CCA fod mewn cam datblygedig. Ar gyfer y rhan fwyaf o brosiectau cyfalaf mae hyn yn golygu y dylai eich prosiect fod wedi cyrraedd **RIBA Cam 4** pan fyddwch yn cyflwyno'ch cais cam dau. Mae'r camau RIBA yn gynllun gwaith cydnabyddedig a luniwyd gan Sefydliad Brenhinol Penseiri Prydain sy'n disgrifio'r gweithgareddau ar bob cam mewn prosiect adeiladu. Bydd gan brosiect ar RIBA Cam 4 [cam Dylunio Technegol] friff prosiect a ddatblygwyd yn llawn, bydd wedi gwneud yr holl arolygon a bydd ganddo lefel briodol o wybodaeth am ddylunio/costau. Gallwch gael mwy o wybodaeth ar [wefan y Cynllun Gwaith RIBA](#).

Caniatadau statudol

Yn ddefnyddiol dylai prosiectau sy'n cynnwys tir, adeiladau neu waith arall gysylltiedig ag adeiladu fod wedi sicrhau Caniatâd Cynllunio llawn (gan gynnwys unrhyw ganiatâd Adeilad Rhestredig ac Ardal Gadwraeth) erbyn y terfyn amser ymgeisio cam un. Ar y lleiaf, dylai prosiectau fod wedi cyflwyno cais am Ganiatâd Cynllunio llawn erbyn y terfyn amser cam un, er mwyn medru cwrdd â therfynau amser a gofynion CCA yng ngham dau.

Erbyn y terfyn amser ymgeisio cam dau, dylai prosiectau cyfalaf fod wedi'u datblygu'n unol â RIBA Cam 4, wedi sicrhau **Caniatâd Cynllunio llawn** (gan gynnwys unrhyw ganiatâd Adeilad Rhestredig ac Ardal gadwraeth), **cymeradwyaeth cynlluniau llawn rheoliadau adeiladu** ac ymgynghori ar unrhyw ganiatadau eraill fel Trwydded Forol, caniatâd Ystâd y Goron, Trwydded Harbwr etc.).

Les/perchnogaeth

Mae'n rhaid i asedau sydd i'w datblygu gydag arian CCA fod yn eiddo i, neu wedi'u lesio gan, yr ymgeisydd neu, yn achos prosiectau partneriaeth, cytundeb cyfreithiol priodol a roddwyd mewn lle i drosglwyddo ein hamodau a thelerau.

Erbyn y terfyn amser ymgeisio cam dau, disgwylir i brosiectau feddu ar **deitl rhydd-ddaliad/etifeddadwy neu brydles** i unrhyw dir/eiddo sydd i'w ddefnyddio ar gyfer y prosiect. Os na ddelir teitl eto, mae angen tystiolaeth bod contract cyfreithiol

rwymol yn bodoli ar gyfer y pwrnasiad/les, ac y caiff y pwrnasiad/les ei gwblhau o fewn chwe mis os cynigir grant gan CCA.

Ar gyfer grantiau cyfalaf hyd at £100,000, mae angen les 5 mlynedd o leiaf; dros £100,000 ond llai na £350,000, les 10 mlynedd o leiaf; rhwng £350,000 a £5 miliwn, les 20 mlynedd o leiaf. Mae'n rhaid i lesau fod yn aseiniadwy a heb gymal torri. Ar gyfer ceisiadau am bortffolio o brosiectau cyfalaf sydd â gwerth ar y cyd o dros £100,000, mae'n rhaid i bob les bara am 10 mlynedd.

Arolygon arfarnu safle

Byddem yn disgwyl gweld gwybodaeth arolygu sy'n gymesur â graddfa a math y prosiect cyfalaf, ac yn ddigonol i fod wedi datblygu'r prosiect yn unol â RIBA Cam 4, i fod mewn lle erbyn y cais cam dau.

Caffael

Rydym yn argymhell i chi gynnwys cymal torri yng nghontractau'r tîm proffesiynol a gyflogwch i ddatblygu'ch prosiect, fel y gellir tendro'r prosiectau hyn yn briodol os bydd grant yn cael ei ddyfarnu.

Amserlenni cyfalaf

Bydd disgwyl i ymgeiswyr amlinellu rhaglen weithgareddau yn eu cais cam dau sy'n adlewyrchu eu prosiect ac amserlenni arfaethedig yn gywir a sut mae hynny'n cydweddu ag amserlenni CCA.

Bydd angen i brosiectau sy'n derbyn 100% o'u harian gan CCA gyrraedd y cam Cwblhau Ymarferol erbyn 31 Rhagfyr 2020 er mwyn i hawliadau terfynol gael eu cyflwyno a'u talu erbyn terfyn amser y rhaglen o 31 Mawrth 2021.

Ar gyfer prosiectau cyfalaf gyda gweithgareddau ac ariannu arall y tu hwnt i 31 Mawrth 2021, mae'n rhaid cwblhau a hawlio'r holl wariant ar CCA erbyn diwedd 31 Mawrth 2021 ac mae'n rhaid eich bod yn ymrwymedig trwy gontract adeiladu i gwblhau'r prosiect gyda chyllid arall.

Rhan saith: Beth yw'r amserlenni?

Dechrau Ionawr 2018 | **Ar agor i geisiadau Cam un**

12 Mawrth 2018 (hanner dydd) | **Dyddiad cau ymgeisio Cam un**

30 Mawrth 2018 | **Hysbysiad Cam un a gwahoddiad i gyflwyno cais Cam dau**

16 Gorffennaf 2018 | **Dyddiad cau ymgeisio Cam dau***

Hydref 2018 | **Dyfarniadau ariannu Rownd pump**

1 Ebrill 2019 | **Terfyn amser ar gyfer dechrau ar brosiectau**

Mawrth 2021 | **Taliad terfynol y grant CCA**

* Byddwn yn cadarnhau'r union ddyddiad ar gyfer ceisiadau Cam dau pan fyddwn yn ysgrifennu at y sawl a wahoddir.

Rhan wyth: Manylion cyswllt

Am fwy o wybodaeth gyrrwch e-bost atom yn

arfordir@cronfaloterifawr.org.uk

neu ffoniwch ni ar 0300 123 0735.

Mae arweiniad ychwanegol ar gael ar ein [gwefan](#):

- Arweiniad CCA ar fesur canlyniadau economaidd
- Arweiniad ar gyfer partneriaethau
- Amodau a thelerau grant safonol
- Amodau a thelerau ychwanegol ar gyfer grantiau cyfalaf